

Symud tŷ

 newydd



Rhoi rhybudd ymadael

Cyn symud allan mae'n rhaid i chi roi o leiaf pedair wythnos o rybudd i ni, yn gorffen ar ddydd Sul, a rhoi gwybod i ni beth yw eich cyfeiriad anfon ymlaen. Gallwch roi rhybudd i ni drwy lenwi'r ffurflen yn y llyfryn hwn – rhowch wybod i ni os oes angen cymorth arnoch chi.

Mae'r rhent am yr eiddo yn parhau i fod yn daladwy yn ystod y cyfnod rhybudd hyd yn oed os ydych chi'n symud allan cyn yr amser hwn. Os ydych chi'n derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol, byddwch yn gymwys ar gyfer taliadau tra byddwch yn byw yn eich cartref yn unig.

Unwaith y byddwch wedi rhoi rhybudd, gall eich eiddo gael ei hysbysebu ar gyfer ei ail-osod.

E-bost

enquiries@newydd.co.uk

Ffôn

0303 040 1998

Gwefan

newydd.co.uk

Ysgrifennu

Cymdeithas Tai Newydd

5 Village Way

Tongwynlais

Caerdydd

CF15 7NE



Beth nesaf?

Bydd Newydd yn trefnu archwiliad. Fe wnawn ni asesu cyflwr eich eiddo ac unrhyw waith atgyweirio y gellir ailgodi tâl amdano. Bydd un o'n syrfewyr yn eich cynghori ar beth fydd angen i chi ei wneud cyn gadael. Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu mynediad er mwyn dangos yr eiddo i ddarpar denantiaid.

Rhestr wirio symud allan



Mae'n rhaid i'r eiddo fod yn lân ac yn wag, gan gynnwys yr atig ac unrhyw siediau gardd



Mae angen codi carpedi



Mae'n rhaid clirio eiddo a sbwriel o'r ardd



Mae'n rhaid ailosod gosodiadau a ffitiadau yr ydych chi wedi eu tynnu allan neu ddifrodi



Mae'n rhaid talu eich holl rent a'ch holl ddyledion



Sicrhewch, os gwelwch yn dda, nad oes unrhyw un yn dal i fyw yn yr eiddo ar ddiwedd eich tenantiaeth



Ni ddylid gadael anifeiliaid anwes yn y cyfeiriad

Nodwch y codir tâl am unrhyw ddifrod nad sy'n gyfrifoldeb i Newydd

Byddwch yn ymwybodol y gallai unrhyw ddyled sydd heb ei thalu effeithio ar eich opsiynau tai yn y dyfodol



Allweddï a diogelwch

Gwnewch yn siŵr bod yr eiddo wedi ei gloi'n ddiogel a dychwelwch yr holl allweddï, gan gynnwys ffobiâu drysau cymunedol ac unrhyw ddyfeisiau "lifeline", cyn hanner dydd ar y dydd Llun wedi i'ch tenantiaeth ddod i ben. Codir tâl arnoch os byddwch yn dychwelyd eich allweddï i ni ar ôl hanner dydd neu os oes angen newid cloeon.

Dychwelwch eich allweddï drwy'r post, wedi eu labelu'n glir gyda chyfeiriad yr eiddo, at:

Cymdeithas Tai Newydd
5 Village Way
Tongwynlais
Caerdydd CF15 7NE


Os ydych chi'n byw yng nghanolbarth Cymru, postiwch at:

Cymdeithas Tai Newydd
St David's House
New Church Street
Y Drenewydd SY16 1RB

Os ydych chi'n byw mewn cynllun byw'n annibynnol, dychwelwch eich allweddï i'ch swyddog byw'n annibynnol os gwelwch yn dda.

Mewn rhai lleoliadau, gan gynnwys ein swyddfeydd, gallwch ddychwelyd eich allweddï gan ddefnyddio blwch gadael allweddï. Cysylltwch â ni ac fe wnawn ni roi gwybod i chi os oes un yn agos i chi. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich allweddï wedi'u labelu gyda'ch enw a chyfeiriad, neu mewn amlen sy'n cynnwys y manylion hyn.





Cyfleustodau

Eich cyfrifoldeb chi yw hysbysu eich cyflenwr nwy, trydan, dŵr ac unrhyw ddarparwyr eraill, yn ogystal ag ailgyfeirio eich post. Ni fyddwn yn medru darparu darlleniadau mesuryddion wedi i chi adael.

Mewn achos o farwolaeth

Cysylltwch â ni cyn gynted â phosib os ydych chi'n gwybod bod un o denantiaid Newydd wedi marw. Os ydych chi'n medru, bydd angen i chi ddarparu copi o'r dystysgrif marwolaeth i ni.

Rydym yn deall y gall hyn fod yn amser anodd iawn i'r teulu a ffrindiau ac y gall gymryd peth amser i symud eiddo allan o'r cartref. Fe wnawn ni roi 4 wythnos i gyflawni hyn, ond nodwch os gwelwch yn dda bod y rhent yn dal i fod yn daladwy ar yr eiddo tan i'r denantiaeth ddod i ben.

Nodwch, os gwelwch yn dda, bod budd-dal tai yn dod i ben ar y dydd Llun cyntaf wedi marwolaeth y tenant.

Os mai chi yw'r perthynas agosaf neu os ydych yn gynrychiolydd personol, gallwch drafod terfynu tenantiaeth drwy gysylltu â Newydd ar **0303 040 1998**.

Ffurflen Terfynu Tenantiaeth

*Yn ofynnol

Ydych chi'n gyd-denant?

Ydw

Na

Cyd-denant 1*:

Cyd-denant 2:

Cyfeiriad*:

Ffôn*:

Yn unol ag amodau fy nghytundeb tenantiaeth, rydw i drwy hyn yn rhoi 4 wythnos o rybudd ar gyfer terfynu tenantiaeth yr eiddo uchod.

Bydd y denantiaeth yn dod i ben ar ddydd Sul:

Os na roddir 4 wythnos o rybudd, bydd y terfyniad yn digwydd bedair wythnos glir wedi i Newydd dderbyn yr hysbysiad hwn.

Caniatâd

Rydw i'n rhoi caniatâd i Newydd symud, dinistrio neu waredu unrhyw nwyddau sy'n dal yn yr eiddo wedi diwedd fy nhenantiaeth. Rwy'n deall y byddaf i'n gyfrifol am unrhyw gostau a gafwyd o symud y nwyddau ac unrhyw daliadau rhent heb eu casglu. Rydw i wedi darllen, deall a chytuno â'r amodau a amlinellir yn y llyfryn hwn.

Cyd-denant 1

Llofnod:

Cyd-denant 2

Llofnod:

Dyddiad:

Dyddiad:

Cwblhewch y ffurflen hon a'i ebostio i yhmholiadau@newydd.co.uk, diolch yn fawr.

Fe wna i ddychwelyd yr holl allwedd i'r Adran Tai yn:

Newydd, 5 Village Way, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7NE

Newydd, St David's House, New Church St, Y Drenewydd, SY16 1RB

Blwch gadael allwedd i Newydd cyn hanner dydd ar ddydd Llun

Fy swyddog byw'n annibynnol

Os na ddychwelwch chi eich allwedd i'r canol dydd heb wneud trefniadau amgen ymlaen llaw gyda ni, byddwn yn newid y cloeon ac yn pasio'r gost ymlaen i chi.

Cyfeiriad(au) anfon ymlaen

*Yn ofynnol

Os nad yw cyfeiriad anfon ymlaen yn berthnasol, nodwch fanylion perthynas agosaf neu gynrychiolydd personol yma.

Cyd-denant 1

Enw*:

Cyfeiriad*:

Ffôn*:

Cyd-denant 2

Enw:

Cyfeiriad:

Ffôn:

Perthynas agosaf neu gynrychiolydd personol (os yn berthnasol)

Enw:

Cyfeiriad:

Ffôn:

Rydym yn gobeithio eich bod wedi mwynhau eich amser yn eich cartref. Fedrwn chi ddweud wrthym ni, os gwelwch yn dda, pam benderfynoch chi symud?

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Symud i ffwrdd | <input type="checkbox"/> Rhentu'n breifat |
| <input type="checkbox"/> Tai â chymorth/cartref nyrsio | <input type="checkbox"/> Symud i mewn gyda phartner/perthnasau |
| <input type="checkbox"/> Prynu eiddo | <input type="checkbox"/> Mae'r eiddo yn rhy fawr |
| <input type="checkbox"/> Mae'r eiddo yn rhy fach | <input type="checkbox"/> Mae'r rhent yn rhy ddrud |
| <input type="checkbox"/> Eiddo mewn cyflwr gwael | <input type="checkbox"/> Ymddygiad gwrthgymdeithasol / problemau cymdogion |
| <input type="checkbox"/> Perthynas wedi dod i ben | |

Nodwch fwy o fanylion isod:

Defnyddir y wybodaeth hon at ddibenion mewnol yn unig ac ni chaiff ei rhannu gyda thrydydd partiön.